



Eich cyf/Your ref:
Ein cyf/Our ref:MA-(P)KW/0924/18
Ann Evans
Cadeirydd Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn,
Caesnewydd
NP10 8UH

23 Mawrth 2018

Annwyl Ann,

Llythyr Dyraniad Grantiau Cymwysterau Cymru ar gyfer 2018 – 2019

Ysgrifennaf atoch i gadarnhau'r Dyraniad Grant i Gymwysterau Cymru ar gyfer 2018-2019. Rhoddir y grant er mwyn i Gymwysterau Cymru gyflawni ei swyddogaethau fel y nodir yn Neddf Cymwysterau Cymru 2015.

Mae Adran 3 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Gymwysterau Cymru weithredu mewn ffordd y mae'n ystyried yn briodol at ddibenion cyflawni'r prif nodau o sicrhau bod cymwysterau, a system cymwysterau Cymru, yn effeithiol er mwyn diwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru, a hybu hyder y cyhoedd yn y cymwysterau a'r system honno. O dan y Ddeddf hefyd, mae'n ofynnol i Gymwysterau Cymru roi sylw dyledus i'r materion a restrir yn adran 3(2) wrth ystyried beth sy'n briodol at ddibenion cyflawni'r prif nodau hynny.

Mae Adran 51 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Gymwysterau Cymru ddarparu cyngor a gwybodaeth i Weinidogion Cymru am faterion yn ymwneud â chymwysterau a'r system cymwysterau yng Nghymru; credaf y bydd fy swyddogion yn ysgrifennu atoch yn ystod 2018-19 i ofyn am gyngor.

Gwerthfawrogaf yn fawr y cyfraniad y mae Cymwysterau Cymru wedi'i wneud hyd yn hyn ar y gwaith i ddatblygu cwricwlwm newydd i Gymru. Wrth i'r gwaith fynd rhagddo yn 2018-19, byddwn yn troi ein sylw at gymwysterau ar gyfer y cwricwlwm newydd ac rwy'n gwerthfawrogi y bydd Cymwysterau Cymru yn rhan sylweddol o'r broses hon. O gofio hyn, rwyf wedi rhoi cyfarwyddiadau i'm swyddogion adolygu'r rhaglen waith y gellir ei darparu o fewn y dyraniad grant cyfredol ar gyfer 2018-19 ac i'm hysbysu os bydd angen cyllid ychwanegol.

Dyraniad Grant

Rwy'n falch o gadarnhau y bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi cyllid grant i Cymwysterau Cymru fel y nodir yn y gyllideb a rennir fel a ganlyn:


	2018/19 £000's
Refeniw GIA	7,842
Arholiadau Cymraeg i Oedolion	200
Heb fod yn arian (e.e. Dibrisiant/Nam)	100
Cyfalaf	
Cyfanswm y Gyllideb Adnoddau ⁽¹⁾	8,142
<i>Addasiadau GIA:</i>	
Heb fod yn arian (e.e. Dibrisiant/Nam)	(100)
Dyledwyr/Credydwyr	
Cyfanswm Cymorth Grant ⁽²⁾	8,042

1. Yn adlewyrchu sefyllfa Cymwysterau Cymru o ran adnoddau.

2. Yn adlewyrchu'r grant arian parod a roddwyd i Gymwysterau Cymru yn ystod y flwyddyn.

Mae taliad y grant yn amodol ar gydymffurfio â'r trefniadau ariannol y cytunwyd arnynt yn Nogfen Fframwaith Cymwysterau Cymru.

Yn gywir



Kirsty Williams AC / AM

Ysgrifennydd Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education